

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

16 Hydref 2019

Yn bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Mrs J James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr R Plummer a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.35am)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

2. Gair o Groeso a Dymuniadau Gorau

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r cyfarfod i Mr Michael Kent, Swyddog Monitro newydd yr Awdurdod. Atebodd Mr Kent drwy ddweud ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Aelodau ac at roi cyngor a hyfforddiant fyddai, gobeithio, yn osgoi achos o herio yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod.

Gan gyfeirio at ymddiheuriad y Cynghorydd Mike James am fod yn absennol, dywedodd y Cadeirydd ei fod ar wellhad ar ôl triniaeth yn yr ysbyty, a dymunodd adferiad buan iddo.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 4 Medi 2019 ac ar 11 Medi 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 4 Medi 2019 ac ar 11 Medi 2019.

4. Materion yn codi

(a) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol/Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (Cofnodion 7 ac 8 (4 Medi 2019))

Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd fersiynau terfynol yr ymatebion i'r dogfennau ymgynghori hyn ar gael hyd yn hyn, ond y byddent yn cael eu dosbarthu unwaith y byddai'r rhain wedi'u cytuno.

NODWYD.



5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu nifer o gyfarfodydd/ digwyddiadau ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod. Ymhlith y rhain oedd y canlynol:

- Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU yn y Yorkshire Dales ar 16-18 Medi, ynghyd â Dr Havard, Cynghorydd Doolin a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwydd y Parc. Bu'r gynhadledd yn un gwerth chweil â chyfleoedd da i rwydweithio. Yn y Cinio Gala, cyflwynwyd Gwobrau Platinwm Parciau Cenedlaethol y DU, ac enillodd Dr George Middleton y Wobr Cyflawniad Oes oedd, er ei fod yn ei 90'au, yn parhau i fod yn weithgar fel Warden Gwifoddol gyda'r Awdurdod. Y gobaith oedd gallu cyflwyno'r wobr iddo yn bersonol yn Oriel y Parc ar 8 Tachwedd, a gofynnwyd i'r Aelodau roi gwybod i'r Prif Weithredwr os dymunant fod yn bresennol.
- Grŵp Traws Bleidiol ar Fioamrywiaeth ar 1 Hydref yng Nghaerdydd lle'r oedd Dr Sarah Beynon o Fferm Bygiau Dr Beynon yn Nhyddewi yn siarad am atal y dirywiad yn nifer y trychfilod.
- Cystadleuaeth Lenyddol Flynyddol Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i Blant oedd wedi derbyn cynigion o safon uchel. Roedd dau o'r ceisiadau buddugol ar ffurf llythyrau i'r Parc Cenedlaethol, ac roedd y Cadeirydd wedi ateb y ddau lythyr hyn.
- Dadorchuddio plac Niclas y Glais ar y Preseli ar 5 Hydref.
- Cinio i ddathlu 10 mlwyddiant LNG yn Sir Benfro a gynhaliwyd yn Oriel V&A yn Llundain ar 7 Hydref. Roedd hwn yn gyfle rhagorol i rwydweithio.
- Cyfarfod â Chyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar 9 Hydref, ac ymweliad â Bombora i ddilyn, y prosiect ynni tonnau sy'n gweithredu yn yr Hafan.
- Cyfarfod 'Uwchgynhadledd Twristiaeth' gydag Aelodau a Swyddogion o Gyngor Sir Penfro ar 14 Hydref i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer twristiaeth yn Sir Benfro.

6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd adroddiadau cyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2019.
- (ii) Pwyllgor Personnel a gynhaliwyd ar 4 Medi 2019.

7. Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Cynllunio APCAP 2018-19

Dywedwyd bod yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Cynllunio yn ddogfen a luniwyd gan yr Awdurdod i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Roedd yn ofynnol i'r Awdurdodau Cynllunio baratoi adroddiad blynyddol yn clustnodi sut oeddent wedi perfformio yn erbyn dangosyddion penodol, gan nodi'r hyn a wnaed yn dda fel y gellid rhannu hyn gydag eraill, a pha gamau y gellid eu cymryd i



fynd i'r afael â'r meysydd perfformiad oedd angen eu gwella. Roedd Adroddiad 2018-19 wedi'i ddosbarthu ymhlith yr Aelodau cyn y cyfarfod. Hefyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad oedd canlyniadau'r arolwg chwe misol a wnaed gyda'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned oedd â'r nod o asesu eu barn a'r modd yr oeddent yn ymgysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Roedd yr adroddiad yn dangos bod y perfformiad ar y cyfan yn dda. Roedd yr arolwg o farn y Cynghorau Cymuned yn amlygu bod angen mwy o hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Cymuned bod angen cael gwell cyswllt â'r swyddogion, ac y byddai'r meysydd hyn yn cael eu hystyried ymhellach i weld sut ellir eu datrys. O ran perfformiad y gwasanaeth gorfodi, roedd adroddiad wedi'i gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Adolygu Gweithredol fis Medi 2018 oedd wedi egluro bod gan yr Awdurdod ôl-groniad o achosion hanesyddol oedd bellach wedi'u clirio. Y canlyniad cadarnhaol arall yn ystod y flwyddyn oedd cyhoeddi ceisiadau ar-lein, ac roedd perfformiad yr Awdurdod yn hyn o beth bellach yn wyrdd, nid yn felyn. Cafwyd llwyddiant 100% mewn achosion apêl ac o ran cynnydd yn nifer y ceisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnod gofynnol. Serch hynny roedd y ffigurau yn dangos gostyngiad yng nghanran y ceisiadau gafodd eu cymeradwyo. Ar ôl edrych ar y rhesymau dros yr ystadegyn olaf hwn, ni ellid gweld bod unrhyw batrwm penodol, heblaw o bosibl bod nifer o geisiadau yn aros tan ddiwedd tymor yr ystlumod ac yn cael eu gwrthod oherwydd diffyg gwybodaeth.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod hwn yn adroddiad defnyddiol ac yn rhoi darlun o berfformiad ar draws y gwasanaeth ac yn amlygu unrhyw feysydd oedd yn peri pryder. Barnent bod perfformiad mor dda â hyn yn haeddu mwy o sylw yn y wasg. Gan gydnabod mai dim ond rhan o'r stori a welir mewn ffigurau perfformiad, roeddent hefyd yn falch o weld mwy o ddata ansoddol yn cael ei gynnwys. Nodwyd bod yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o faterion, megis y tir sydd ar gael ar gyfer tai, darparu tai fforddiadwy a'r cynnydd mewn Airbnb, oedd yn gyffredin ar hyd a lled llawer o Gymru ac y byddai angen mynd i'r afael â'r rhain ar y lefel honno, drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Dywedodd Aelod arall nad oedd y cynnydd yn Airbnb o reidrwydd yn amlygu cynnydd yn y llety sydd ar gael, ond yn fwy o newid yn y modd y mae llety yn cael ei farchnata.

Hefyd bu peth trafodaeth ynghylch ymatebion y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a'r nifer sy'n bresennol yn yr hyfforddiant sydd eisoes ar gael iddynt. Atebodd y swyddogion y cynhelir seminar bob chwe mis, ond bod y nifer sy'n cymryd rhan yn isel ar y cyfan. Roedd pwyntiau eraill yn ymwneud â'r gostyngiad ym mhoblogaeth y Parc Cenedlaethol, a chytunodd y Cyfarwyddwr i weld a allai ychwanegu mwy o wybodaeth am y mater hwn.



Nododd yr Aelodau bod adroddiadau ar berfformiad cynllunio yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Adolygu, gan ofyn a ellid codi rhywfaint ar rai o'r targedau hynny fel bod y gwasanaeth yn parhau i anelu am ragoriaeth.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar Berfformiad Cynllunio 2018/19 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn amodol ar gynnwys y newidiadau a glustnodwyd gan yr Aelodau.

8. Adroddiad Monitro Blynyddol 2019 ar Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol bob mis Hydref, sy'n edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn asesu i ba raddau yr oedd strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn cael eu cyflawni. Roedd yr Adroddiad yn mesur gwahanol ddangosyddion i asesu perfformiad y polisïau cynllunio unigol a nodir yn y CDLI mabwysiedig ac i roi darlun cyffredinol o'r amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Parc.

Roedd Adroddiad 2019 ynghlwm er mwyn i'r Aelodau ei gymeradwyo fel y gellid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref. Byddai'r ddogfen hefyd yn cael ei chyhoeddi fel y gallai'r cyhoedd gyflwyno sylwadau arni.

Roedd yr Adroddiad yn dangos mai dim ond 7 o'r 36 o ddangosyddion oedd yn awgrymu meysydd oedd yn peri pryder o ran gweithredu polisïau/amcanion, a 2 lle na lwyddwyd i gyrraedd y targedau. Rhoddwyd manylion am y 2 hyn yn yr adran 'Canfyddiadau Allweddol' o'r adroddiad. Nodwyd bod pob un o'r materion hyn wedi'u hystyried yn ystod yr Archwiliad i'r CDLI Newydd oedd wedi'i gynnal yn ystod Gorffennaf 2019.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod hwn yn adroddiad defnyddiol, ond nodwyd bod perfformiad rhai dangosyddion yn cael ei roi fel Amherthnasol ac eraill yn wag, ac awgrymwyd y byddai sylwadau yn y dyfodol ynghylch pam fod hyn yn wir yn ddefnyddiol. Hefyd gofynnwyd a ellid rhoi sgôr Coch Melyn Gwyrdd ar gyfer yr Amcanion Cynaliadwyedd yn adran Monitro Arfarnu Cynaliadwyedd yr Adroddiad. Atebodd y swyddogion y byddent yn ymchwilio i hyn, ond bod yr amcanion hyn yn fwy anodd i'w mesur.

Yn olaf, mewn ymateb i gwestiwn, rhoddodd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc ddiweddariad i'r Aelodau ar hynt y CDLI Newydd tuag at gael ei fabwysiadu. Dywedodd bod yr Arolygydd, yn sesiwn olaf y gwrandawriad ar 1 Hydref, wedi amcanu y byddai'r Awdurdod yn derbyn ei Hadroddiad ddiwedd Ionawr 2020 ar gyfer gwirio ffeithiau, ac y byddai'r Adroddiad yn ymrwymol ar yr Awdurdod. Fodd bynnag, ers hynny, roedd y gofynion i gyhoeddi'r Newidiadau i'r Materion sy'n Codi y cytunwyd arnynt yn ystod Sesiynau'r Gwrandawriad, fyddai'n destun ymgynghoriad cyhoeddus, wedi



dod yn fwy sylweddol na'r disgwyl a bod amheuaeth bellach ynghylch yr amserlen. Cytunodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau unwaith y byddai'r amserlen wedi dod yn gliriach.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2019.

9. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 6 (Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau) – Dogfen Gyfeirio yr APCAP

Dywedwyd bod dyletswydd Adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau eu bod yn gyson â chyflawni eu swyddogaethau yn briodol, a thrwy wneud hynny, yn hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. Gan y barnwyd y byddai cynllun ar wahân yn mynd yn groes i'r egwyddor o gynllunio a chyflawni integredig yr oedd yr Awdurdod eisoes yn ei weithredu, paratowyd y ddogfen gyfeirio er mwyn dangos sut oedd yr Awdurdod o'r farn bod gofynion A6 yn cael eu bodloni a'u monitro, ac i glustnodi unrhyw feysydd y gellid eu cryfhau.

Roedd yr Aelodau yn cytuno â'r dulliau a gymerwyd ac yn croesawu'r ddogfen. Holodd un Aelod a allai'r ddogfen ddangos y gwaith sy'n cael ei wneud yn fwy ymarferol, ond nododd Aelodau eraill y byddai'n well cyflawni hyn drwy gyhoeddusrwyd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Adran 6 - Dogfen Gyfeirio.

10. Cyfraniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i'r Ymateb i Heriau'r Argyfwng Newid Hinsawdd

Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru fis Mawrth 2018 wedi cyhoeddi dogfen 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' oedd yn nodi'r polisiau a'r cynigion i osod y sylfeini i Gymru drawsnewid i fod yn genedl carbon isel. Ar 29 Ebrill 2019, roedd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd wedi datgan argyfwng hinsawdd yng Nghymru, gan dynnu sylw at y bygythiad a berir i iechyd, yr economi, y seilwaith ac i amgylchedd naturiol y genedl.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau, a ysgrifennwyd gyda mewnbwn gan staff ar draws yr Awdurdod, yn amlinellu sut oedd yr Awdurdod yn ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd ar hyn o bryd, drwy leihau carbon a dal a storio carbon, addasu a lliniaru. Roedd hefyd yn nodi argymhellion ar ble allai'r Awdurdod, o bosibl, wneud mwy eto o ostyngiadau neu effaith.

Barnai'r Aelodau bod yr adroddiad yn un calonogol, ac mai defnyddiol yw casglu gwybodaeth mewn un dogfen am y camau a gymerir gan yr



Awdurdod. Gwnaed nifer o awgrymiadau ar gyfer cryfhau'r geiriad mewn mannau a phwysleisio'r llwyddiannau. Roedd awgrymiadau eraill, mwy penodol yn cynnwys nodi bod y mater wedi'i godi yn y lle cyntaf gan staff yn y Fforwm Gweithwyr fel ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd, cwestiynau ynghylch cynlluniau gwrthbwysu carbon, dylanwadu'n gadarnhaol ar gyflenwyr, cynnwys milltiroedd yr Aelodau yn y cyfrifo, a chatau y gellid eu cymryd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o leihau carbon. Bu peth trafodaeth ynghylch offer mesur carbon a rhywfaint o siom nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r fethodoleg gyfrifo safonol y gellid ei defnyddio wedyn ar gyfer meincodi. Awgrymwyd y dylid codi hyn gyda'r Gweinidog yn y Seminar i'r Aelodau ar Dirweddau Dynodedig Cymru.

Gan ddiolch i'r swyddogion am y ddogfen, awgrymwyd mai'r cam nesaf oedd cynhyrchu Cynllun Gweithredu i'w gyflwyno i'r Awdurdod maes o law.

PENDERFYNWYD bod Cynllun Gweithredu i fwrw ymlaen â chyfraniad yr Awdurdod i ymateb i heriau'r argyfwng newid yn yr hinsawdd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod yn y dyfodol.

11. Polisi Amgylcheddol

Dywedwyd mai diben y Polisi Amgylcheddol oedd nodi ymrwymiad yr Awdurdod i leihau'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a helpu i hwyluso gwelliannau lle bo hynny'n bosibl. Roedd y polisi yn diffinio cwrpas y gweithgareddau amgylcheddol y mae gan yr Awdurdod reolaeth uniongyrchol arnynt ac atebolrwydd, a'r cyfrifoldebau a glustnodwyd yn rhai sydd o fewn cylch gwaith yr Awdurdod drwy bartneriaethau cydweithredol ehangach lle gellid monitro ac olrhain camau o weithredu a'r canlyniadau.

Roedd y Polisi Amgylcheddol wedi'i adolygu yn unol â'r cylch adolygu safonol o 3 blynedd, ac wedi'i ddiweddarau'n sylweddol mewn ymateb i ddatganiad argyfwng hinsawdd Llywodraeth Cymru a'r targed i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Roedd geiriad y polisi yn fwy cadarn i gynnwys datganiadau clir o fwriad a allai arwain at ddatblygu, gweithredu ac olrhain y camau yn y cynllun gweithredu.

Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r polisi, ond yn awgrymu y dylai'r testun fod yn fwy clir i egluro y byddai nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael ei leihau drwy ddefnyddio technolegau rhith-gyfarfod dim ond lle roedd gofyn teithio.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Polisi Amgylcheddol.



12. Gair o ddiolch

Dywedodd y Cadeirydd y byddai tymor Mr Allan Archer ar yr Awdurdod yn dod i ben cyn hir, ac mai heddiw oedd ei gyfarfod olaf yn yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Diolchodd iddo am ei gyfraniadau meddylgar, yn enwedig ar faterion cynllunio, a dymunodd yn dda iddo i'r dyfodol, gan ychwanegu y byddai colled ar ei ôl.

Atebodd Mr Archer y byddai yntau hefyd yn gweld eisiau bod yn rhan o'r Awdurdod. Roedd yn falch o allu dweud bod busnes yr Awdurdod bob amser yn cael ei gynnal â pharch, a'i fod o'r farn, yn dilyn rhai blynyddoedd o ansicrwydd oherwydd Adolygiadau Tirweddau Dynodedig, bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda o ran symud ymlaen. Diolchodd i'r Aelodau ac i'r swyddogion a dymunodd bob lwc iddynt i'r dyfodol.